Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**



# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2022/2023



Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n gosod y gyllideb ar gyfer plismona lleol. Mae hyn yn cynnwys gosod lefel y praesept - yr elfen o'ch treth gyngor sy'n mynd i'r heddlu.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ehangach y mae pawb ohonom yn wynebu, a'r angen i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Bu'r rhain yn hollbwysig yn fy ystyriaethau.

Yn anffodus, oherwydd chwyddiant, pwysau annisgwyl a galw am wasanaethau, bydd buddsoddiad newydd yn gyfyngedig yn 2022/23. Gan hynny, yr wyf wedi cymryd y penderfyniad a gefnogwyd yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throseddu i godi'r praesept heddlu o 5.3%. Mae hyn yn golygu cynnydd misol o £1.22 a phraesept blynyddol o £290.16 ar gyfer eiddo Band D. Mae hyn yn codi cyfanswm praesept o £66.760 miliwn ac yn darparu cyfanswm grant craidd canolog a chyllid lleol o £127.445 miliwn.

Bydd y lefel hon o gyllid yn galluogi Heddlu Dyfed-Powys i barhau i ddiogelu ein cymunedau lleol a chanolbwyntio ar gyflenwi fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd.

Dafydd Llywelyn

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Mawrth 2022



| Cyllideb refeniw | diwygiedig 2021/22 £m | 2022/23 £m |
|---|---|---|
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 1.093 | 1.284 |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | 1.002 | 1.003 |
| Ystadau | 4.119 | 4.305 |
| **Costau Net SCHTh** | **6.214** | **6.592** |
| Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu | 108.170 | 115.336 |
| Treuliau Rhedeg Eraill | 15.931 | 17.285 |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 3.669 | 3.788 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 2.273 | 3.241 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu** | **130.043** | **139.650** |
| Incwm | -5.993 | -6.097 |
| Grantiau Eraill | -10.358 | -11.732 |
| Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn | -0.072 | -0.968 |
| **Gofyniad Cyllideb** | **119.834** | **127.445** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | -44.497 | -52.017 |
| Ardrethi Annomestig a Ailddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru) | -9.212 | -8.477 |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -3.818 | -0.190 |
| Praesept Treth Gyngor | -62.307 | -66.760 |
| **Cyfanswm yr Arian** | **-119.834** | **-127.445** |
| **Asesiad o Wariant Safonol** | **37.492** | **33.904** |
| **Cyllideb Gwariant Cyfalaf** | **11.752** | **27.556** |
| **Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | **16.466** | **9.800** |

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gyllideb a'r penderfyniad praesept, darllenwch ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig fan hyn:
https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/

## Bydd y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn ein caniatáu i...

**Recriwtio 57 swyddog heddlu ychwanegol**

**Parhau i fuddsoddi mewn seilwaith hanfodol**

**Cyflawni yn erbyn fy mlaenoriaethau allweddol, a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2021-25:**

1. Cefnogi dioddefwyr;
2. Atal niwed; a
3. Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol.

**Beth fyddwch chi'n talu ar gyfer y flwyddyn 2022/2023**

| Eich band treth | 2022/23 | Cynnydd ers llynedd |
|---|---|---|
| A | £193.44 | £9.73 |
| B | £225.68 | £11.36 |
| C | £257.92 | £12.98 |
| **D** | **£290.16** | **£14.60** |
| E | £354.64 | £17.84 |
| F | £419.12 | £21.09 |
| G | £483.60 | £24.33 |
| H | £580.32 | £29.20 |
| I | £677.04 | £34.07 |

01267 226440
opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF
www.dyfedpowys-pcc.org.uk @DPOPCC